Edwina Hart AC MBE
Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services

Our ref: SF/EH/0627/08
Your ref:

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Cardiff Bay
Cardiff CF99 1NA
English Enquiry Line: 0845 010 3300
Fax: 029 2089 8131
E-Mail:Correspondence.Edwina.Hart@Wales.gsi.gov.uk

Bae Caerdydd
Caerdydd CF99 1NA
Llinell Ymholiadau Cymraeg: 0845 010 4400
Ffacs: 029 2089 8131
E-Bost:Correspondence.Edwina.Hart@Wales.gsi.gov.uk

Rhagfyr 2008

YMGYNGHORIAD TECHNEGOL AR *ANHWYLDERAU BWYTA: LLWYBR I GYMRU*

Mae datblygu gwasanaethau i bobl sy'n dioddef o anhwylderau bwyta yn flaenoriaeth. Heb y driniaeth a'r gofal priodol, mae'n anodd iawn gwella o gyflyrau fel Anorecsia Nerfosa a Bwlimia Nerfosa a gall eu heffeithiau ar ddioddefwyr fod yn rhai cronig ac mewn rhai achosion trist yn rhai marwol. Rwyf wedi ei gwneud yn glir bod angen i safon y gwasanaethau ledled Cymru wella'n sylweddol. I'r perwyl hwn, rwy'n benderfynol o wella lefelau'r gwasanaethau sydd ar gael yn y gymuned.

Er mwyn gwella'r gwasanaethau ar gyfer anhwylderau bwyta, bydd yn rhaid wrth lwybr clir ar gyfer gofal a thriniaeth. Y gamp o ran cynnig gofal effeithiol i bobl sydd ag anhwylderau bwyta yw sicrhau bod pob rhan o'r gwasanaeth - ac yn enwedig gofal sylfaenol, gwasanaethau iechyd meddwl lleol a staff meddygol aciwt - yn deall eu priod rolau ac yn eu cyflawni.

Er mwyn bwrw ymlaen â hyn, cyhoeddais ar 15 Hydref fy mod wedi dyrannu £0.5 miliwn y flwyddyn nesaf, ac wedyn gwerth £1m o arian cylchol, er mwyn bwrw ymlaen â'r gwaith o ddatblygu gwasanaethau cymunedol ar gyfer anhwylderau bwyta. Yn ogystal, gofynnais i ddogfen drafod y Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol (GICC), 'Anhwylderau Bwyta: Llwybr Gofal/Model Gofal Arfaethedig' (2006) gael ei hadolygu a'i diweddaru.

Rwyf wedi amgáu'r ddogfen ymgynghori a ddeilliodd o'r broses hon, sef 'Anhwylderau Bwyta: Llwybr i Gymru'. Mae'n cynnwys cyngor technegol oddi wrth y GICC i Lywodraeth Cynulliad Cymru. Mae wedi cymryd y materion canlynol i ystyriaeth:

a) Ailstrwythuro GIG Cymru
b) Achosion lle mae'r afiechydon hyn yn digwydd ar yr un pryd â chyflyrau eraill
c) Sefydlogi meddygol ac ail-fwydo mewn achosion difrifol, gan gynnwys mewnbwn oddi wrth feddygon a dietegwyr
ch) Yr holl arferion gorau ar anhwylderau bwyta a gyhoeddwyd er 2006.

Bellach mae'r ddogfen hon ar gael at ddibenion ymgynghori tan 30 Ionawr 2009. Mae'n amlinellu sut y gall gwasanaethau wella'r ddarpariaeth ar gyfer pobl sydd ag anhwylderau bwyta ac yn awgrymau lle y gellir targedu arian ac adnoddau ychwanegol. Mae'r llwybr a'r argymhellion arfaethedig yn anelu at leihau'r angen i gleifion ddefnyddio gwasanaethau mewn ysbyty trwy ddarparu ymyriad arbenigol ynghynt i gleifion newydd a gwasanaethau ataliol ychwanegol i'r cleifion hynny y mae eu hanghenion yn fwy cymhleth. Rwyf hefyd yn cynnwys crynodeb gweithredol.

Amgaeaf isod y cwestiynau ymgynghori yr hoffwn i chi roi sylw iddynt.

Cwestiynau Ymgynghori:

1. Pa heriau a fydd yn gysylltiedig â'r gwaith o weithredu'r Llwybr yn genedlaethol, ac yn lleol?

2. Beth yw eich barn am yr argymhellion ar gyfer timau arbenigol trydyddol ar gyfer anhwylderau bwyta?

3. Unrhyw sylwadau penodol eraill

Mae modd anfon ymatebion i'r ymgynghoriad drwy'r e-bost at MentalHealthPolicyMailbox@wales.gsi.gov.uk neu drwy'r post at:

Yr Ymgynghoriad ar y Fframwaith ar gyfer Anhwylderau Bwyta
Y Gangen Iechyd Meddwl, Grwpiau Agored i Niwed a Throseddwyr
Yr Adran dros Iechyd a Gwasanaethau Cyhoeddus
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

Mae manylion a dogfennau hefyd ar gael ar-lein yn: http://new.wales.gov.uk/consultations/healthsocialcare/?lang=cy. Y dyddiad cau ar gyfer ymateb yw 30 Ionawr 2009.